



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

RHEOLAU GOFAL CYMDEITHASOL CYMRU (CYNNWYS Y GOFRESTR) 2020

Ebrill 2020

Mae'r broses o reoleiddio cofrestru ac addaswydd i ymarfer y gweithlu gofal cymdeithasol gan Ofal Cymdeithasol Cymru yn cael ei rheoli gan dri math o ddogfennau cyfreithiol, sydd oll yn berthnasol i gofrestru ac addaswydd i ymarfer unigolion cofrestredig:

- **Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (y Ddeddf);**
- **Rheoliadau Llywodraeth Cymru;**
- **Cyfes Gofal Cymdeithasol Cymru o Reolau Cofrestru a Rheolau Addaswydd i Ymarfer.**

Nid yw cynnwys y Ddeddf na'r Rheoliadau wedi'i nodi yn y Rheolau hyn. Dylech felly ddarllen cynnwys y Ddeddf a'r Rheoliadau ar y cyd â'r Rheolau i gael dealltwriaeth gynhwysfawr o'r gweithdrefnau cofrestru ac addaswydd i ymarfer.

Mae'r Ddeddf ar gael yn:

<http://www.legislation.gov.uk/cy/anaw/2016/2/contents/enacted>.

Rhestrir y Rheoliadau isod a gellir eu gweld yn - <http://www.legislation.gov.uk/wsi>

- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ehangu Ystyr "Gweithiwr Gofal Cymdeithasol") 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Rhestr o Bersonau sydd wedi eu Tynnu oddi ar y Gofrestr) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cyfansoddiad Paneli: Personau Rhagnodedig) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) 2016
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Achosion gerbron Paneli) (Diwygio) 2017
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2018
- Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Pennu Gweithwyr Gofal Cymdeithasol) (Cofrestru) (Diwygio) 2020

Mae Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru ar gael yn:

<https://gofalcymdeithasol.cymru/casgliadau/rheolau-gofal-cymdeithasol-cymru-2017>

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru, wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 73(2) a (4) a 91(2) Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 ("y Ddeddf") a'r holl bwerau eraill sy'n galluogi Gofal Cymdeithasol Cymru yn hynny o beth, ac ar ôl ymgynghori yn unol ag adran 75 y Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Rheolau canlynol:

TREFNIANT Y RHEOLAU

RHAN I

CYFLWYNIAD

- | | | |
|----|----------------------------|---|
| 1. | Cyfeirio, cychwyn a dirymu | 3 |
| 2. | Dehongli | 3 |

RHAN II

Y GOFRESTR

- | | | |
|----|--|---|
| 3. | Cofnodion yn y gofrestr | 6 |
| 4. | Cofnodi enwau myfyrwyr gwaith cymdeithasol ar y gofrestr | 6 |
| 5. | Dyroddi a ffurf tystysgrif gofrestru | 6 |
| 6. | Cadw'r gofrestr | 7 |

RHAN I

CYFLWYNIAD

Cyfeirio, cychwyn a dirymu

1. (1) Ceir cyfeirio at y Rheolau hyn fel Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2020 a byddant yn dod i rym ar 1 Ebrill 2020.
- (2) Dirymir drwy hyn Reolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2017 (“Rheolau 2017”).

Dehongli

2. (1) Yn y Rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:
 - Mae “**Deddf**” yn golygu Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016;
 - Mae “**Rheolau Panel Apeliadau**” yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Panel Apeliadau Cofrestru) 2020;
 - Mae “**Cyngor Gofal**” yn golygu’r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal, Cyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon neu Gyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban;
 - Mae “**Rheoliadau Cynnwys y Gofrestr**” yn golygu Rheoliadau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cynnwys y Gofrestr) 2016;
 - Mae “**cyflogwr**” yn cynnwys asiantaethau cyflogaeth, pobl hunangyflogedig, ac unrhyw gyflogwr gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol (sy’n gweithio yn rhinwedd gweithiwr cymdeithasol neu weithiwr gofal cymdeithasol) y mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn ymwybodol ohonynt;
 - Mae “**cofnod**” yn golygu’r manylion a gofnodir ar y gofrestr fel y pennir yn rheol 3(1);
 - Mae “**Rheolau Addasrwydd i Ymarfer**” yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer) 2020 neu ddarpariaeth gyfatebol mewn fersiwn gynharach o’r rheolau hynny;
 - Mae “**gorchymyn atal dros dro amhenodol**” yn golygu gorchymyn a wneir gan banel addasrwydd i ymarfer o dan adran 154(10) y Ddeddf;
 - Mae “**Rheolau Gorchmynion Interim**” yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Gorchmynion Interim) 2017 neu 2020, pa un bynnag sy’n berthnasol;

Mae “**gorchymyn atal dros dro interim**” yn golygu gorchymyn sy’n atal cofrestriad unigolyn cofrestredig dros dro o dan y Rheolau Gorchymynion Interim;

Mae “**Rheolau Ymchwilio**” yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Ymchwilio) 2017 neu 2020, pa un bynnag sy’n berthnasol;

Mae “**rhan o’r gofrestr**” yn golygu’r rhan o’r gofrestr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, neu’r rhan o’r gofrestr ar gyfer gweithwyr gofal cymdeithasol o bob disgrifiad a bennir yn y rheoliadau o dan adran 80(1)(b) y Ddeddf neu’r rhan o’r gofrestr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol sydd ar ymweliad neu reolwyr gofal cymdeithasol sydd ar ymweliad o Wladwriaethau Ewropeaidd perthnasol;

Mae “**cofrestr**” yn golygu’r gofrestr a gynhelir gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 80 y Ddeddf;

Mae “**unigolyn cofrestredig**” yn golygu unigolyn sydd wedi’i gofrestru yn y rhan o’r gofrestr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol, mewn rhan ychwanegol o’r gofrestr, neu yn y rhan o’r gofrestr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol Ewropeaidd sydd ar ymweliad neu’r rhan o’r gofrestr ar gyfer rheolwyr gofal cymdeithasol Ewropeaidd sydd ar ymweliad, ac mae’n cynnwys unigolyn:

- (a) y byddai ei gofrestriad wedi dar fod o dan adran 87(1) y Ddeddf, heblaw am y ffaith bod is-adran (2) yr adran honno’n berthnasol i’r unigolyn;
- (b) y mae gorchymyn atal dros dro mewn grym mewn perthynas ag ef;
- (c) y mae gorchymyn atal dros dro interim mewn grym mewn perthynas ag ef;
- (ch) y mae gorchymyn atal dros dro amhenodol mewn grym mewn perthynas ag ef;

Ystyr “**cofrestrydd**” yw’r unigolyn a benodwyd yn unol ag adran 81(1) a (2) y Ddeddf;

Ystyr “**cofrestriad**” yw’r cofnod yn y gofrestr sy’n ymwneud ag unigolyn cofrestredig penodol;

Mae “**Rheolau Panel Apeliadau Cofrestru**” yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Panel Apeliadau Cofrestru) 2019 neu 2020, pa un bynnag sy’n berthnasol;

Mae “**Rheolau Cofrestru**” yn golygu Rheolau Gofal Cymdeithasol Cymru (Cofrestru) 2018, 2018b neu 2020, pa un bynnag sy’n berthnasol;

Mae “**Gofal Cymdeithasol Cymru**” yn golygu’r corff corfforaethol a adwaenir fel Gofal Cymdeithasol Cymru ac a adwaenwyd yn flaenorol fel Cyngor Gofal Cymru;

Mae “**myfyriwr gwaith cymdeithasol**” yn golygu unigolyn sy’n cymryd rhan mewn cwrs a gymeradwywyd gan Ofal Cymdeithasol Cymru o dan adran 114(1)(a) y Ddeddf, neu unigolyn sy’n cymryd rhan mewn rhaglen gymhwysu gwaith cymdeithasol yn rhywle arall yn y Deyrnas Unedig a

gymeradwywyd gan Gyngor Gofal, sydd wedi'i gofrestru neu'n dymuno cofrestru â'r rhan o'r gofrestr ar gyfer gweithwyr cymdeithasol;

Mae "**gorchymyn atal dros dro**" yn golygu gorchymyn a wneir gan banel addasrwydd i ymarfer i atal cofrestrriad yr unigolyn cofrestredig dros dro o dan y Rheolau Addasrwydd i Ymarfer.

- (2) Yn y Rheolau hyn, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:
- (a) mae geiriau unigol yn cynnwys y lluosog, ac mae geiriau lluosog yn cynnwys yr unigol;
 - (b) mae unrhyw gyfeiriad at reol neu ran wedi'i rhifo yn gyfeiriad at y rheol neu'r rhan sydd â'r rhif hwnnw yn y rheolau hyn, yn ôl y digwydd;
 - (c) mae unrhyw gyfeiriad at baragraff wedi'i rifo mewn rheol neu ran, yn gyfeiriad at y paragraff sydd â'r rhif hwnnw yn y rheol neu'r rhan honno;
 - (ch) mae unrhyw gyfeiriad at is-baragraff wedi'i rifo mewn paragraff mewn rheol neu ran, yn gyfeiriad at yr is-baragraff sydd â'r rhif hwnnw yn y rheol neu'r rhan honno.

RHAN II

Y GOFRESTR

Cofnodion yn y gofrestr

3. (1) Bydd y cofrestrydd yn cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn cofnod ar y gofrestr yn ymwneud ag unigolyn cofrestredig, yn ogystal â'r wybodaeth sy'n ofynnol gan adran 91(1) y Ddeddf¹ a rheoliadau 3 i 9 Rheoliadau Cynnwys y Gofrestr:
- (a) enw neu enwau (presennol a blaenorol);
 - (b) rhif cofrestru;
 - (c) y rhan o'r gofrestr y mae'r unigolyn cofrestredig wedi'i gofrestru ynddi;
 - (ch) y sir bost sy'n gysylltiedig â'r cyfeiriad lle y mae'r unigolyn cofrestredig wedi'i gyflogi neu lle y mae'n hunangyflogedig (oni bai ei fod wedi'i leoli y tu allan i'r Deyrnas Unedig);
 - (d) pan fo'r unigolyn cofrestredig yn fyfyrwr gwaith cymdeithasol, y sir bost ar gyfer y man lle y mae'r unigolyn cofrestredig yn cymryd rhan mewn cwrs gradd.

Cofnodi enwau myfyrwyr gwaith cymdeithasol ar y gofrestr

4. (1) Pan fydd cais am gofrestru wedi cael ei ganiatáu gan y cofrestrydd mewn perthynas â myfyrwr gwaith cymdeithasol, ni chaiff enw neu enwau'r myfyrwr hwnnw ei gofnodi/eu cofnodi ar y gofrestr hyd nes bod y cofrestrydd yn fodlon bod y myfyrwr wedi dechrau cymryd rhan mewn cwrs gradd.

Dyrodidi a ffurf tystysgrif gofrestru

5. (1) Pan fydd y cofrestrydd yn cofnodi ac yn cyhoeddi enw neu enwau unigolyn ar y gofrestr, bydd y dystysgrif gofrestru ar ffurf a bennir gan Ofal Cymdeithasol Cymru, a bydd:
- (a) yn datgan y manylion canlynol am yr unigolyn cofrestredig:
 - (i) enw presennol;
 - (ii) rhif cofrestru;
 - (iii) dyddiad cofrestru; a
 - (iv) rôl gofrestredig.

¹ Mae adran 91(1) yn datgan bod rhaid i gofnod yn y gofrestr sy'n ymwneud ag unigolyn ddangos y wybodaeth ganlynol:

(a) y dyddiad y cofnodwyd yr unigolyn ar y gofrestr;

(b) cymwysterau'r unigolyn i wneud y math o waith y mae ei gofrestriad yn ymwneud ag ef;

(c) y cyfryw gymwysterau eraill, gwybodaeth arall neu brofiad arall sy'n berthnasol i gofrestriad yr unigolyn, fel y gellid eu rhagnodi;

(ch) y gyfryw wybodaeth sy'n ymwneud ag addasrwydd yr unigolyn i ymarfer, fel y gellid ei rhagnodi.

Cadw'r gofrestr

6. (1) Bydd y gofrestr yn cael ei chadw'n ddiogel mewn modd sy'n gochel rhag ffugio.

(2) Bydd y cofrestrydd yn diweddarau'r gofrestr yn unol â gofynion rheoliadau 3 i 9 Rheoliadau Cynnwys y Gofrestr a'r rhai a osodir gan:

(a) y Rheolau Cofrestru- rheol 14 (hysbysiad o benderfyniad ynglŷn â chais am gofrestru), rheol 24 (caniatáu neu wrthod cais am adnewyddu cofrestriad), rheol 25 (darfodiad cofrestriad), rheol 26 (newidiadau i wybodaeth gofrestru), rheol 27 (dileu cofnodion o'r gofrestr drwy gytundeb), rheol 28 (marwolaeth unigolyn cofrestredig), rheol 29 (cofnodion sy'n seiliedig ar wybodaeth anwir neu gamarweiniol), rheol 30 (dileu o'r gofrestr am resymau eraill), rheol 32 (caniatáu cais i ddychwelyd i'r gofrestr) a rheol 35 (caniatáu cais i adfer i'r gofrestr);

(b) y Rheolau Panel Apeliadau Cofrestru – rheol 22 (penderfyniad panel apeliadau cofrestru), rheol 29 (caniatáu cais am adfer yn dilyn achos addasrwydd i ymarfer) a rheol 36 (penderfyniad panel ynglŷn ag atal yr hawl i wneud cais am adfer dros dro);

(c) y Rheolau Ymchwilio – rheol 7 (rhoi rhybudd), rheol 8 (cytuno ag ymgymeriadau), rheol 9 (dileu drwy gytundeb),

(ch) y Rheolau Gorchmynion Interim – rheol 18 (penderfyniad panel gorchmynion interim i osod gorchymyn interim), rheol 20 (penderfyniad panel addasrwydd i ymarfer i osod gorchymyn interim) a rheol 23 (penderfyniad wrth adolygu gorchymyn interim),

(d) y Rheolau Addasrwydd i Ymarfer – rheol 24 (rhoi rhybudd), rheol 27 (ymgymeriadau) a rheol 28 (gwaredu gan banel addasrwydd i ymarfer).

Llofnodwyd ar ran Gofal Cymdeithasol Cymru

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Mick Giannasi'. The signature is written in a cursive style with some loops and a long horizontal stroke at the end.

**Mick Giannasi
Cadeirydd Gofal Cymdeithasol Cymru**

24.02.20